**Hysbyseb Recriwtio Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS)**

A ydych chi'n oedolyn sydd â phrofiad byw o wasanaethau diogelu, yn byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro neu Bowys a all gynnig persbectif gwybodus ar ansawdd a darpariaeth gwasanaethau diogelu yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru? Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS) am recriwtio cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth i fod yn aelod o'i fwrdd gweithredol rhanbarthol diogelu oedolion. Ymarfer peilot dros gyfnod penodol o flwyddyn fydd hwn. Bydd eich rôl yn sicrhau bod persbectif a llais oedolion mewn perygl yn cael eu cynrychioli a'u hystyried ym musnes y bwrdd a bod eich profiad byw yn llywio amcanion a chynlluniau strategol.

Bydd eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn cynnwys y canlynol:

- Bod yn bresennol mewn tua phedwar cyfarfod bwrdd diogelu rhanbarthol y flwyddyn (gellir trefnu presenoldeb rhithwir).
- Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd rhanbarthol perthnasol eraill fel y bo'n briodol ac fel y cytunwyd rhyngoch chi a'r cadeirydd.
- Paratoi'n ddigonol ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd diogelu rhanbarthol trwy ddarllen papurau ac agenda'r bwrdd cyn y cyfarfod.
- Sicrhau cyfrinachedd papurau agenda, y trafodaethau a'r penderfyniadau a wneir.
- Darparu persbectif defnyddiwr gwasanaeth i fusnes y bwrdd diogelu rhanbarthol.
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a chynigion, gan ddarparu mewnbwn adeiladol o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth.
- Bod yn ddolen gyswllt rhwng y bwrdd diogelu rhanbarthol a defnyddwyr gwasanaeth eraill lle bo'n briodol.

Byddwch yn adrodd i gadeirydd y bwrdd diogelu rhanbarthol ac yn cael cymorth uniongyrchol gan y rheolwr diogelu rhanbarthol strategol ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl. Gellir hawlio ad-daliad llawn ar gyfer treuliau rhesymol.

I drefnu trafodaeth anffurfiol gyda'r rheolwr diogelu rhanbarthol neu i ofyn am becyn gwybodaeth, anfonwch e-bost i CWMPAS@Pembrokeshire.gov.uk neu ffoniwch 01437775200.

Gwahoddir ceisiadau ar ffurf llythyr eglurhaol at gadeiryddion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, Michael Gray a Jake Morgan. Sicrhewch fod hyn yn cynnwys yr hyn a wnaeth eich cymell i wneud cais, eich profiad byw fel defnyddiwr gwasanaethau diogelu, a sut y teimlwch y gallwch gyfrannu at y bwrdd diogelu rhanbarthol a'i ddatblygiad ac ymateb i oedolion mewn perygl yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Bydd y rôl yn gofyn am wiriad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener, 13 Medi 2024.

Anfonwch lythyr eglurhaol at sylw Michael Gray a Jake Morgan i CWMPAS@Pembrokeshire.gov.uk

Sylwch y cynhelir cyfweliadau ddydd Gwener, 4 Hydref 2024.